**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

# Fframwaith Strategol
2026–35

Rydym yma dros
y celfyddydau,
Cymru
a'r dyfodol

We are here for
the arts,
Wales
and the future



## Cynnwys

06 Ein pwrpas a'n gwerthoedd
08 Ein themâu strategol 2026-35
16 Sut beth fydd llwyddiant ymhen 5-10 mlynedd





# Rydym yma dros y celfyddydau, Cymru a'r dyfodol

# We are here for the arts, Wales and the future









## Rhagair

Rydym mewn cyfnod hollbwysig. Mae sector y celfyddydau yn esblygu'n gyflym, ac mae addysg uwch yn wynebu heriau dwys.

Ac eto rwy'n parhau i fod yn optimistaidd iawn. Gyda her daw cyfle aruthrol a'r angen am eglurder. Yma yn CBCDC, mae gennym gyfle unwaith mewn oes i wneud pethau'n wahanol. Mae'n gyfle unigryw i adeiladu ar ein cryfderau a'n rhagoriaeth artistig, i ddyfnhau ein cymuned, ehangu ein cyrhaeddiad a'n heffaith, ac ailddiffinio ein rôl fel conservatoire cenedlaethol a chynullydd y celfyddydau yng Nghymru.

Dyna pam mae'r fframwaith strategol newydd beiddgar hwn – golau arweiniol wrth i ni lywio drwy'r deng mlynedd nesaf – yn edrych ymhell ymlaen, wedi'i lunio o amgylch ein tri ymrwymiad parhaus.

### Rydym yma dros y celfyddydau, Cymru a'r dyfodol.

Gydag amrywiaeth, tegwch, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn wedi'u plethu drwy'r cyfan, ac wedi'u hategu gan gynllunio manwl, mae'r tair thema hyn yn nodi sut y byddwn yn darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf, yn creu gwerth i Gymru, ac yn adeiladu dyfodol cynaliadwy i'r Coleg a'r cymunedau a wasanaethwn.

Wrth ei wraidd mae cred syml ond pwerus – bod y celfyddydau'n newid bywydau. Maen nhw'n dod â phobl at ei gilydd. Maen nhw'n trawsnewid cymdeithas. Nid ychwanegiad dewisol ydyn nhw – maen nhw'n hanfodol i bwy ydym ni a'r byd rydym yn ei lunio. Dyma beth rydym yn ei gynrychioli yn CBCDC.

Dydw i erioed wedi teimlo'n fwy angerddol a hyderus yn ein rôl, ein huchelgais, a'n trywydd. Mae'r angerdd a'r hyder hwnnw wedi'u gwreiddio yn ymroddiad rhyfeddol ein pobl, cyflawniadau ein myfyrwyr a'n graddedigion, a chryfder ein partneriaethau. Rydym eisoes wedi cyflawni cymaint gyda'n gilydd – ac eto mae ein cyfleoedd mwyaf o'n blaenau o hyd.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd, ein cymuned, i wireddu'r weledigaeth hon yn y blynyddoedd i ddod.

**Yr Athro Helena Gaunt**
Prifathro

**Ein pwrpas**

# Rydym yma am ein bod yn credu bod y celfyddydau'n newid bywydau, yn dod â phobl ynghyd ac yn trawsnewid cymdeithas.

**Ein gwerthoedd**

## Arbenigol a chynhwysol

## Cyfoes a chydweithredol


## Dyfeisgar a chyfrifol

Mae'r fframwaith strategol hwn wedi'i ategu gan ymrwymiad i amrywiaeth, tegwch, cynhwysiant a pherthyn.

**Ein hymrwymiadau**

1. Ymarferwyr arbenigol yn grymuso ac yn hyfforddi myfyrwyr o bob cwr o'r byd i safonau uchaf diwydiant i lunio diwydiant y dyfodol.
2. Gwneud gwaith gyda'n cymuned, gan ein cymuned ac ar gyfer ein cymuned – rydym yn cyflwyno'r rhaglen fwyaf o gelfyddydau cyhoeddus yng Nghymru, mewn cymunedau amrywiol yn ogystal ag yn ein canolfan.
3. Datblygu a phrofi ffyrdd newydd a chreadigol i'r celfyddydau ffynnu.

Drwy hyn, ac effaith ein graddedigion a'n staff medrus ar y diwydiannau creadigol, rydym yn falch o fod yn sefydliad angori i Gymru, yn esiampl o ragoriaeth a chynhwysiant ledled y byd ac yn adnodd sy'n uno'r genedl, gan gefnogi'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol fel ffynhonnell ar gyfer twf economaidd, creu lleoedd ac adeiladu cymunedau, symudedd cymdeithasol a lles.



Caiff y fframwaith hwn ei gefnogi gan Strategaeth Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Pherthyn CBCDC, ynghyd â chynlluniau gweithredu gwrth hiliaeth ac amrywiaeth, tegwch, cynhwysiant a pherthyn. Caiff y gwaith o gyflawni'r cynlluniau hyn ei reoli gan Bwyllgor Amrywiaeth, Tegwch, Cynhwysiant a Perthyn y Coleg, dan gadeiryddiaeth y Prifathro, a'i oruchwylio gan y Bwrdd. Mae'r cynlluniau'n cynnwys ymrwymiadau penodol, gan gynnwys mewn perthynas â gwrth-hiliaeth, cynhwysiant anabledd a chydraddoldeb rhywedd. Yn ogystal, mae ymrwymiadau diogelu penodol wedi'u nodi ym Mholisi Diogelu CBCDC sy'n cael ei reoli gan ein Pwyllgor Diogelu.

# Ein themâu strategol 2026-35

## Y celfyddydau

Darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf, sy'n nodedig o ddeniadol i fyfyrwyr a diwydiant

## Cymru

Creu gwerth i Gymru

## Y dyfodol

Sicrhau gwytnwch ariannol a sefydliadol







# Y celfyddydau



**Darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf, sy'n nodedig o ddeniadol i fyfyrwyr a diwydiant.**

## Mae CBCDC yn datblygu artistiaid rhagorol sy'n greadigol, yn gydweithredol, yn wydn, yn ddyfeisgar, ac yn gymdeithasol gyfrifol.

Drwy ddull nodedig sy'n cysylltu myfyrwyr mewn ffyrdd amrywiol â phobl, cymunedau a chymdeithas drwy eu hymarfer artistig, mae cyrsiau gradd yn eu paratoi ar gyfer y dyfodol, gan integreiddio crefft a rhagoriaeth greadigol â lles, datblygiad personol a deallusol, cymdeithas, cynaliadwyedd a llythrennedd digidol moesegol.

- Portffolio amrywiol o gyrsiau gyda ffocws ar ymarfer cydweithredol, wedi'i gefnogi gan bartneriaethau rhagorol, lleoliadau gwaith a llwybrau i gyflogaeth
- Cymuned o staff ac artistiaid gwadd amrywiol o'r radd flaenaf mewn cymuned greadigol rymusol a chynhwysol
- Profiad o'r byd go iawn (ymgysylltiad â diwydiant, y cyhoedd a'r gymuned, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd) i fyfyrwyr
- Canlyniadau rhagorol ymhlith graddedigion, wedi'u hategu gan brosesau ansawdd cadarn wedi'u teilwra

# Cymru



**Creu gwerth i Gymru**

## Hybu lles creadigol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y genedl, drwy hyfforddiant artistig o'r radd flaenaf, arweinyddiaeth greadigol, a phartneriaeth ddofn ledled Cymru.

Bydd y Coleg yn buddsoddi mewn talent ifanc, yn hyrwyddo diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg fel grym byw a chyfoes, ac yn gosod Cymru yn hyderus ar y llwyfan byd-eang.

- Cyfleoedd a chanlyniadau o'r radd flaenaf i fyfyrwyr o Gymru o bob cefndir
- Bwydo'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd a ledled Cymru
- Cynnwys pobl ifanc a chymunedau amrywiol ledled Cymru yn ein gwaith, gan ehangu mynediad
- Hyrwyddo diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg ar draws cyrsiau, rhaglenni a gweithrediadau
- Adeiladu brand Cymru drwy ein rhagoriaeth gynyddol a'n hymgysylltiad rhyngwladol

# Y dyfodol




**Sicrhau gwytnwch ariannol a sefydliadol**

## Caiff gwytnwch ei adeiladu trwy incwm cynaliadwy, cymuned amrywiol a chefnogol o staff, diwylliant arbenigol a chynhwysol, a mannau a systemau sy'n addas at y diben.

Mae gwytnwch yn dibynnu ar feithrin parch a phartneriaeth ar draws y sefydliad, ac yn ei dro mae'n galluogi creadigrwydd, rhagoriaeth a gofal am ein cymuned.

- Niferoedd myfyrwyr, twf masnachol a thwf o ran codi arian
- Fframwaith staffio conservatoire gwydn, gyda gwasanaethau proffesiynol fel partneriaid yn y gwaith o gyflawni; a blaenoriaethau ar gyfer lles
- Cynllunio gofod a seilwaith wedi'i gysylltu â thwf a hygyrchedd, gyda chynllun ar gyfer lleihau carbon i sero net
- Brand byd-eang sy'n cael ei gydnabod am ragoriaeth nodedig
- Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata; llywodraethu symlach a thryloyw

# Rydym yn uchelgeisiol wrth ddychmygu llwyddiant ymhen 5-10 mlynedd



**Sut beth fydd llwyddiant ymhen 5-10 mlynedd**

# Y celfyddydau



Cymuned ddysgu ddeinamig a gwydn; graddedigion amrywiol, y mae galw mawr amdanynt, yn llunio eu disgyblaethau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru ac ar draws y byd, a llysgenhadon eithriadol dros CBCDC a'r genedl.




1. Portffolio o gyrsiau galwedigaethol addasadwy sy'n arwain y sector, yn denu hyd at 1200 o fyfyrwyr erbyn 2029/30, gyda llwybrau clir ac amrywiol i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn fyd-eang; wedi'i ategu gan bartneriaethau eithriadol, cydweithio, cyfleoedd rhyngddisgyblaethol a rhyngwladol, ymchwil ac arloesedd, a dull nodedig sy'n rhoi lle canolog i fyfyrwyr fel artistiaid mewn cymdeithas; a rhagoriaeth mewn meysydd ymarfer sy'n dod i'r amlwg fel y celfyddydau ac iechyd, awtomeiddio a chynhyrchu digidol, a thechnolegau creadigol ymdrochol erbyn 2034/35
2. Cymuned o staff ac artistiaid gwadd o'r radd flaenaf sy'n gynyddol amrywiol, ynghyd â phrosesau derbyn, cwricwlwm ac addysgeg gynhwysol wedi'u hymgorffori ar gyfer pob cwrs erbyn 2029/30
3. Profiad rhyngddiwylliannol ac o ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau i bob myfyriwr, yng Nghaerdydd erbyn 2029/30, gan ymestyn trwy CBCDC Agored i'n canolfannau partneriaeth rhanbarthol; ynghyd â datblygu cyflogadwyedd wedi'i ymgorffori gan gynnwys sgiliau bywyd a dechrau busnes, deallusrwydd artiffisial moesegol a llythrennedd digidol
4. Cyfraddau cadw myfyrwyr wedi'u cynnal uwchlaw 90%, sgoriau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr uwchlaw meincnod Cymru erbyn 2029/30, a chanlyniadau graddedigion yn arwain at yrfaoedd rhagorol ac amrywiol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol; wedi'u cefnogi gan lasbrint cwricwlwm cadarn a nodedig CBCDC, a phrosesau sicrhau a gwella ansawdd sy'n cyflawni disgwyliadau archwilio ansawdd cenedlaethol

**Sut beth fydd llwyddiant ymhen 5-10 mlynedd**

# Cymru



Sefydliad angori cenedlaethol i Gymru a'i phrifddinas, Caerdydd, sy'n adnabyddus ac yn ennyn parch a chariad gan y genedl; yn hyrwyddo pobl ifanc ac yn ehangu mynediad i'r celfyddydau, ac yn ganolog i ecosystem y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru; yn helpu i ddatblygu a chyflawni polisi cenedlaethol.



1. Daw 30% o fyfyrwyr o Gymru erbyn 2029/30, wedi'u hyfforddi mewn amgylchedd amrywiol, rhyngddiwylliannol gan groesawu 30% o fyfyrwyr rhyngwladol erbyn 2029/30 a 35% o fyfyrwyr rhyngwladol erbyn 2034/35

2. Cymuned gynyddol o raddedigion rhagorol yn dewis bod yn rhan o ecosystem y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd a Chymru

3. CBCDC Agored wedi'i lansio, cam 1 yr Hen Lyfrgell wedi'i gwblhau a thair canolfan bartneriaeth weithgarwch wedi'u sefydlu yng Nghymru (Gogledd, Gorllewin, De) erbyn 2029/30, gan gefnogi mynediad i CBCDC, llwybrau cynhwysol i hyfforddiant celfyddydol, a phrofiadau celfyddydol gwell i gymunedau ledled Cymru

4. Diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori drwy lwybr cerddoriaeth draddodiadol gyfoes Gymreig erbyn 2029/30, partneriaeth gynyddol i gomisiynu a chynorthwyo pobl greadigol Cymru, y gân Gymreig mewn deialog â'r gân gelf ryngwladol ar y lefelau uchaf, ac 20% o staff yn siarad Cymraeg yn ddyddiol erbyn 2034/35

5. Sefydliad angori cenedlaethol i Gaerdydd a Chymru, sy'n adnabyddus ac yn ennyn parch a chariad gan y genedl, yn helpu i lunio a chyflawni polisi cenedlaethol, yn hybu brand Cymru, ac yn cynnull rhaglen genedlaethol o dalent ifanc erbyn 2034/35

**Sut beth fydd llwyddiant ymhen 5-10 mlynedd**

# Y dyfodol



Hyder yng nghynaliadwyedd CBCDC, yn ariannol, yn amgylcheddol, ac o ran ein pobl a'n hadnoddau ffisegol



1. Hyder yng nghynaliadwyedd ariannol CBCDC wedi'i ategu gan dwf ac incwm amrywiol, cronfeydd arian parod a mwy o waddol erbyn 2034/35
2. Fframwaith staffio gwydn sy'n galluogi mwy o ymgysylltiad a lles ar draws pob math o gontract erbyn 2029/30
3. Fframwaith gweithredol effeithlon, gyda seilwaith ffisegol a digidol wedi'i ddiweddaru erbyn 2029/30, a systemau, prosesau a defnydd hyblyg o AI wedi'u hymgorffori erbyn 2034/35; cynllun ar gyfer sero net gyda cherrig milltir wedi'u mynegi erbyn 2027/28, ac yn cael ei weithredu mewn camau cynyddol
4. Gwell enw da ac adnabyddiaeth gref o frand yn y DU, UDA, Tsieina, Singapore, Malaysia, Awstralia ac India, ynghyd ag ymagwedd aeddfed at recriwtio myfyrwyr yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gyrraedd targedau recriwtio blynyddol; cymuned o raddedigion amrywiol ac uchel eu cydnabyddiaeth ar draws y diwydiannau celfyddydol a chreadigol yng Nghymru a'r byd, sy'n gweithio'n rhagweithiol gyda CBCDC ac fel llysgenhadon eithriadol erbyn 2034/35
5. Llywodraethu cadarn, ystwyth a thryloyw wedi'i ymgorffori ledled y sefydliad erbyn 2029/30, gyda blaenoriaethau wedi'u cysylltu'n glir â'r fframwaith strategol a'r cynlluniau cyflawni